# SION CAIN (c. 1575 - c. 1650), arwyddfardd

**Enw:** Sion Cain
**Dyddiad geni:** c. 1575
**Dyddiad marw:** c. 1650
**Rhiant:** Gwen wraig Rhys Cain
**Rhiant:** Rhys Cain
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** arwyddfardd
**Maes gweithgaredd:** Hanes a Diwylliant; Barddoniaeth
**Awdur:** Evan David Jones

Mab Rhys Cain, a anwyd, y mae'n debyg, cyn i'r teulu ymsefydlu yng Nghroesoswallt tua 1578. Dilynodd ei dad yn ei alwedigaeth, ac edrychid arno, yn ei ddydd, fel yr olaf o'r arwyddfeirdd. Gadawodd rai nodiadau sy'n awgrymu ei fod yn rhyw gymaint o amaethwr hefyd. Teithiodd yn helaeth yng Ngogledd Cymru yng nghwrs ei alwedigaeth. Dechreua cofnodion ei yrfa gyhoeddus gydag ymweled â Llywenni, gyda beirdd eraill, yng ngwyliau Nadolig, 1607. Rhwng hynny a 1648 erys dros 300 o'i gywyddau achyddol, y rhan fwyaf ohonynt yn ei law ei hun. Ni fedrir dyddio dim o'i waith ar ôl 1648, a gellir casglu iddo farw tua'r adeg honno. Bu ei wraig farw 12 Hydref 1646 (Pen. MS. 178 (79)), ac mewn deiseb at y cyrnol Mytton, yn erbyn gosod milwyr i letya yn ei d (yn 1644?), cyfeiria at ei deulu hefyd. Daeth ei lawysgrifau i feddiant Robert Vaughan, Hengwrt, a ohebai'n weddol gyson ag ef. Erys tua 40 o lythyrau a ysgrifennwyd ato ar faterion achyddol (Pen. MS. 327), casgliadau o'i farddoniaeth (Pen. MS. 90, 116, 117), casgliad herodrol (Pen. MS. 149), a chasgliad achau (Pen. MS. 269). Di-awen iawn yw ei gywyddau achau ac ni fedrai amrywio llawer hyd yn oed ar ei linellau agoriadol. Nid oedd cystal crefftwr â'i dad. Y mae ei dariannau arfau yn llawer mwy aflêr, a'i law yn frasach nag eiddo'i dad.

## Awdur

**Evan David Jones**, (1903 - 1987)

## Ffynonellau

*Reports of the Historical Manuscripts Commission*, R.W.M

N.L.W., llawysgrifau Pen. fel uchod, a chartau achau yng nghasgliadau Peniarth, Coedllai, Plas Nantglyn, a Llanbedrog

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q18880264

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu